Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010/2011

Mid and West Wales Fire and Rescue Authority
Draft Annual Action Plan 2010-2011

'Have your say'

Our Draft Annual Action Plan identifies a number of areas where we want to make improvements in 2010-2011. We want you to play a part in shaping your Fire and Rescue Service and hope that you will take the time to provide us with your views by completing the following questionnaire.

We are seeking your views over a twelve week period from **12th May 2009** and all comments should be submitted by **04th August 2009**.

Contact Details

Please complete your details below, you may also complete this form electronically via our website www.mawwfire.gov.uk

Data Protection Act: We will use your information solely for administration purposes. We will keep your details secure and will not disclose them to other organisations or third parties without your consent unless we are legally required to do so.

Medi 2009
Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Pencadlys y Gwasanaeth

C y n n w y s

		Tudalen
1.0	Crynodeb Gweithredol	2
2.0	Cyflwyniad a Phwrpas yr Adroddiad	3
3.0	Strategaeth a Methodoleg yr Ymgynghoriad	4
4.0	Trafodaeth Anffurfiol gyda'r Cynulliad Cymreig	6
5.0	Proffil o Ymatebwyr	7
6.0	Sut yr aethpwyd ati i ddadansoddi'r ymatebion	10
7.0	Canlyniadau'r Ymgynghoriad	11
7.1	Gwella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed	11
7.2	Rhannu ein Cyfleusterau gyda'n Cymunedau	13
7.3	Cynnwys ein Cymunedau	14
7.4	Gwella Diogelwch ar y Ffordd	15
7.5	Cyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref	16
7.6	Lleihau'r nifer o Danau Glaswelltir Bwriadol	17
8.0	Casgliadau	18
9.0	Cyflawni Gwelliannau	19

1.0 Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Strategol ar gyfer 2010-2015 ym mis Mai 2009, sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y pum mlynedd nesaf. Mae gan y cynllun ffocws clir ar wella diogelwch ein cymunedau a'n gweithwyr, ac mae'n amlinellu'r strategaethau corfforaethol ar gyfer gwella'r gwasanaeth a lleihau risg.

Bydd Cynlluniau Gweithredu Blynyddol yn cael eu darparu i ganfod meysydd penodol y mae'r Awdurdod yn dymuno'u gwella yn ystod oes y Cynllun Strategol. Amlinellwyd y meysydd i'w gwella yn y flwyddyn gyntaf yn y Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft ar gyfer 2010-2011.

Roedd y Cynllun Gweithredu Drafft yn gofyn am farnau ein budd-ddeiliad ar welliannau awgrymedig. Derbyniwyd cyfanswm o 66 o ymatebion, sy'n llawer is na rhai o'r ymgynghoriadau yn y gorffennol. Cydnabyddir fod y gostyngiad mewn ymatebion gan staff yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd unrhyw gynigion penodol yn effeithio'n uniongyrchol ar eu hamodau gwasanaeth. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn y ganran o ymatebion cyffredinol gan aelodau o'r cyhoedd. Mae'r ymatebion cadarnhaol a chynhwysfawr a ddarparwyd, fel rhan o'r ymgynghoriad, yn arddangos bod ein cymunedau'n ystyried y meysydd a ymgynghorwyd yn eu cylch yn bwysig, a'u bod yn croesawu'r cyfle i roi eu barnau.

Mae'r Awdurdod yn hynod o ddiolchgar i bawb a rodd o'u hamser a'u hymdrech i gynnig eu sylwadau, ac mae'n falch iawn o gael adrodd am yr ymatebion yma. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut gafodd yr ymatebion eu hystyried, a sut fydd yr wybodaeth yma'n dylanwadu ar y strategaeth ar gyfer 2010-2011 a thu hwnt. Gwahoddwyd sylwadau ar y meysydd canlynol.

- Gwella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed
- Rhannu ein cyfleusterau gyda'n cymunedau
- Cynnwys ein cymunedau
- Gwella diogelwch ar y ffordd
- Cyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref
- Lleihau'r nifer o danau glaswelltir bwriadol

Darperir dadansoddiad llawn o'r sylwadau a wnaethpwyd ar gyfer pob maes ffocws yn Adran 7. Dangosodd y dadansoddiad o sylwadau fod yna themâu cyffredin yn llawer o'r ymatebion.

- **Cefnogaeth i'n gwaith presennol -** Cafodd yr Awdurdod ei blesio gan y sylwadau cadarnhaol a wnaed am ei waith presennol, oherwydd bod llawer o'r argymhellion ar gyfer gwella eisoes wedi eu hymgorffori wrth gyflawni gwasanaeth. Roedd hyn yn cadarnhau bod strategaethau'r Awdurdod yn adlewyrchu'n eang beth mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl oddi wrthym.

- **Gweithio ar y cyd gyda phartneriaid –** Derbyniwyd ymatebion cadarnhaol am y partneriaethau sydd eisoes mewn lle a chyflawniadau gweithio'n gydweithrediadol. Darparwyd awgrymiadau o ansawdd da ar ddatblygu cyfleoedd posib gyda phartneriaid newydd.

- **Creu ymwybyddiaeth o'n gwaith a'n gwasanaethau –** Darparwyd awgrymiadau am sut ddylai'r Awdurdod godi ei broffil a gwneud cymunedau'n fwy ymwybodol o'r amryw o wasanaethau a ddarperir a'r cynlluniau sydd eisoes mewn lle.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu hystyried gan y Cyfarwyddwyr priodol a'u timau, ac y dylai gwybodaeth berthnasol gael ei rannu gyda'n partneriaid.

Bydd cynnydd ym mhob maes o wella yn cael ei adrodd i'r Awdurdod Tân a'i bwyllgorau perthynol yn gyfnodol. Bydd manylion am y datblygiadau'n cael eu hadroddi mewn Cynlluniau Gweithredu Blynyddol dilynol. Bydd Cynllun Gweithredu Blynyddol terfynol 2010-2011 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ar y 26ain o Hydref 2009, a bydd yn cael ei adroddi mewn dogfen gyfun, ynghyd â Gwybodaeth am Berfformiad a Gwella, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar yr 31ain o Hydref 2009.

2. Cyflwyniad a Phwrpas yr Adroddiad

Yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Fai 2009, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gymeradwyo ei Gynllun Gweithredu Blynyddol Drafft ar gyfer 2010-2011. Roedd y cynllun drafft yn amlinellu sut fydd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Awdurdod yn canolbwyntio'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn nesaf, ar egwyddorion ei Gynllun Strategol ar gyfer 2010-2015. Adnabuwyd nifer o feysydd, fel yr amlinellwyd yn Adran 7, ble yr ystyriwyd y gellid cyflawni gwelliannau penodol, a gofynnwyd i'r budd-ddeiliad am eu barnau.

Fel rhan o'r broses Cynllun Lleihau Risg, cynhaliodd yr Awdurdod broses ymgynghori ar raddfa eang, i gasglu barnau'r cyhoedd, budd-ddeiliad allweddol a staff ar y meysydd ffocws yma. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion Cynllunio i Leihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru a modelau arfer da.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut yr aethpwyd ati i gynnal yr ymgynghoriad, sut gafodd yr ymatebion eu hystyried a'r penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod Tân o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

3. Strategaeth a Methodoleg yr Ymgynghoriad

3.1 Ymgynghori

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft ar y 12fed o Fai 2009, ac yn dilyn hynny oedd cyfnod o ddeuddeg wythnos o ymgynghori nes y 4ydd o Awst 2009. Datblygwyd cynllun cyfathrebu cynhwysfawr, er mwyn cyrraedd cymaint o'r budd-ddeiliad ag oedd yn bosib.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â chanllawiau Cynllunio i Leihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chôd Enghreifftiol Swyddfa'r Cabinet. Defnyddiwyd modelau arfer da Cymru hefyd. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bartner mewn Fframwaith Ymgynghori, Ymwneud ac Ymrwymo, sy'n hyrwyddo arfer da ar gyfer digwyddiadau ymgynghori, a defnyddiwyd y fframwaith hwn i gynorthwyo gyda'r broses.

Budd-ddeiliad

Mae rhestr gynhwysfawr, sy'n gyson â Chanllawiau'r Cynulliad, yn cael ei chadw a'i diweddaru gyda manylion cyswllt amrywiaeth eang ac amrywiol o fudd-ddeiliad. Roedd yr Awdurdod yn ystyried bod y sefydliadau canlynol yn fudd-ddeiliad allweddol, a gofynnwyd iddynt am eu barnau am y cynigion a oedd yn gynwysedig yn y cynllun drafft, naill ai fel unigolion neu fel grŵp neu gymdeithas gynrychiolaidd:-

- Aelodau o'r Cyhoedd
- Aelodau o Staff
- Awdurdodau Unedol Cyfansoddol a'u Prif Weithredwyr
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau Cynulliad
- Aelodau Seneddol
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro
- Awdurdodau Tân sy'n ffinio
- Cyrff Cynrychiolaidd
- Heddlu De Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Dyfed Powys
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwylwyr y Glannau E M a grwpiau eraill
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Mudiadau Gwirfoddol yn ardal yr Awdurdod Tân
- Grwpiau Ethnig Lleiafrifol yn ardal yr Awdurdod Tân
- Y Siambr Fasnach a mudiadau Masnachu
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Deintyddion a Meddygfeydd MT
- Fforwm 50+

Dosbarthwyd bron i 1500 o gopïau o'r Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft i'n budd-ddeiliad, naill ai fel rhan o'r dosbarthiad cychwynnol, mewn digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus neu ar gais unrhyw grŵp neu unigolyn.

3.1.2 Gwefan

Mae gan yr Awdurdod Adran Lleihau Risg ar ei wefan, a gosodwyd y Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft ar y safle hwn yn bennaf, i alluogi i ymatebion i gael eu cyflwyno trwy gyfrwng electronig. Cafodd y budd-ddeiliad eu cymell i ddarllen y dogfennau ac i ymateb iddynt ar ffurf electronig, er mwyn cydymffurfio â pholisïau cynaliadwy'r Awdurdod. Roedd gwybodaeth gefndir am y broses a chynlluniau ac ymatebion cynt yn gynwysedig ar y wefan hefyd, a oedd yn rhoi mynediad i ddatganiadau i'r wasg ar y cynllun yn ogystal.

3.1.3 Dosbarthu'r Cynllun

Yn Ebrill 2009, fe wnaeth yr Awdurdod hysbysu budd-ddeiliad y byddai Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010-2011 ar gael i'w weld ar y wefan o'r 12fed o Fai 2009, cyn i gopïau printiedig gael eu dosbarthu. Gwnaethpwyd hyn er mwyn rhoi cymaint o rybudd ag oedd yn bosib ac i osgoi byrhau'r cyfnod o ymgynghori o gwbl oherwydd rhaglenni o gyfarfodydd y Cynghorau.

Diweddarwyd y gronfa ddata bresennol o fanylion cyswllt budd-ddeiliad allweddol, yn unol â chanllawiau'r Cynulliad, ac fe wnaeth yr Awdurdod ddosbarthu copïau caled printiedig o'r ddogfen ddrafft i'r holl grwpiau a nodwyd. Roedd y ddogfen yn cynnwys holiadur ymateb i'r ymgynghoriad, er mwyn cofnodi eu sylwadau.

Dosbarthwyd copïau o'r cynllun i'r holl lyfrgelloedd yn ardal yr Awdurdod, er mwyn rhoi mynediad eang i'r cyhoedd. Eleni, mewn ymgais i gyrraedd mwy o aelodau o'r cyhoedd, fe wnaethom ehangu ein rhestr ddosbarthu i gynnwys Meddygfeydd MT a Deintyddion, ac rydym yn ddiolchgar i'r Bwrdd Iechyd Lleol am eu cymorth a'u cefnogaeth gyda'r datblygiad hwn.

Eleni am y tro cyntaf, fe wnaethom baratoi taflenni i hysbysebu'r ymgynghoriad, ac fe wnaethom anfon y taflenni yma, ynghyd â'r cynllun, i sefydliadau sydd â mynediad i hysbysfyrddau. Yn ogystal, dosbarthwyd y taflenni yma'n eang mewn digwyddiadau cyhoeddus, megis Sioe Frenhinol Cymru.

3.1.4 Budd-ddeiliad Mewnol, Staff a Chyrff Cynrychiolaidd

Ar ddechrau'r broses o ymgynghori, rhoddwyd Memoranda'r Prif Swyddog Tân i'r staff, yn amlinellu'r cynigion ac yn cymell staff i ymateb. Rhoddwyd copi o'r Cynllun i bob gorsaf dân, adrannau cynnal ac uwch reolwyr, a hysbyswyd y staff y gellid gweld y ddogfen ar ffurf electronig ar y rhwydwaith Gweinyddwr Gwybodaeth Fusnes mewnol.

Cafodd yr holl gyrff cynrychiolaidd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu hymgynghori'r ffurfiol am y cynigion.

3.1.5 Ymgynghori â'n Partneriaid

Ffurfiwyd partneriaethau gyda sefydliadau eraill, sy'n medru hyrwyddo ein hymgynghoriadau. Rydym yn aelod o Bartneriaeth Ymgynghori Abertawe, a pharatowyd gwefan bartneriaeth i hyrwyddo gweithgareddau ymgynghori ar draws nifer o sefydliadau yn ardal Abertawe. Yn ogystal, defnyddiwyd gwefannau awdurdodau unedol yn ein hardal i hysbysebu a hyrwyddo ein gwaith.

3.1.6 Strategaeth y Cyfryngau

Defnyddiwyd cymaint o'r Cyfryngau ag oedd yn bosib, er mwyn rhoi cyswllt rhagweithiol i'r cyhoedd ac i sicrhau fod cymunedau'n cael eu diweddaru am gyhoeddi'r Cynllun, y cynigion allweddol a'r manteision o ran diogelwch yn y gymuned. Yn ogystal, cafodd ei ddefnyddio i fanylu ynghylch y broses o ymgynghori, a sut fedrai'r cyhoedd gyfrannu wrth baratoi'r cynllun terfynol.

- Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg er mwyn lansio cychwyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac fe wnaeth yr ymgynghoriad ymddangos yn amlwg ar wefan y Gwasanaeth. Dosbarthwyd cyfres o ddatganiadau i'r wasg â thema i'r cyfryngau yn ystod yr ymgynghoriad, er mwyn cymell ymatebion a chynnal proffil yr ymgynghoriad.

- Roedd y Swyddog Cyfathrebu'n gyfrifol am fonitro'r cyfryngau trwy gydol y broses o ymgynghori, a bu'n hysbysu Aelodau a Swyddogion o adroddiadau ac unrhyw faterion a oedd yn amlygu. Bydd datganiad i'r cyfryngau'n cael ei gyhoeddi pan fydd yr Awdurdod wedi cytuno ar, a chyhoeddi'r cynllun terfynol, i adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

4.0 Llywodraeth Cynulliad Cymru – Trafodaeth Anffurfiol

Fel rhan o ganllawiau Cynllun i Leihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n ofynnol i'r Awdurdod i drafod ei gynllun yn anffurfiol gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol. Cynhaliwyd cyfarfod ar y 7fed o Fedi 2009 rhwng y Gweinidog, Cadeirydd yr Awdurdod, Aelodau'r Gweithgor RRP ac uwch swyddogion. Fe wnaeth y cyfarfod gyda'r Gweinidog ganiatáu trafodaeth dwy ffordd ar gyflawniadau'r Awdurdod a chanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

5.0 Proffil o Ymatebwyr

Er mwyn cofnodi ymatebion i gynigion yr Awdurdod ar leihau risg, dosbarthwyd holiaduron gyda'r cynllun, a oedd yn galluogi'r ymatebwyr i roi eu sylwadau i ni. Derbyniwyd mwyafrif yr ymatebion trwy gyfrwng holiaduron a gwblhawyd, ond roedd opsiynau electronig ar gael ac yn cael eu hyrwyddo hefyd.

Roedd y ffurflen yn cynnwys adran ddewisol i gofnodi manylion am yr ymatebydd ac, os yn briodol, y sefydliad yr oeddent yn ei gynrychioli. Roedd hyn yn ein galluogi i ddadansoddi nifer a math yr ymatebwyr, a ph'un ai eu bod yn cyflwyno sylwadau personol neu'n ymateb ar ran sefydliad. Isod, ceir crynodeb o broffil yr ymatebwyr a sut y cyflwynwyd eu sylwadau.

Nifer yr ymatebwyr yn ôl math:-



Dull o Ymateb



Ble y gwelodd yr ymatebwyr y cynllun:-



5.1 Ymatebwyr yn ôl Ardaloedd yr Awdurdod

Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr eu cyfeiriadau, a dengys y tabl isod eu gwreiddiau yn ôl ardal awdurdod unedol. Ni roddodd rhai o'r ymatebwyr yr wybodaeth yma, ac roedd cyfeiriadau un Aelod Cynulliad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru tu allan i'r ardal.

Ardal	**Nifer o ymatebion**
Sir Gaerfyrddin	14
Powys	13
Sir Benfro	12
Abertawe	12
Ceredigion	7
Castell-nedd a Phort Talbot	1
Heb nodi	5
Tu allan i Ganolbarth a Gorllewin Cymru	2
Cyfanswm	**66**

5.2 Cymhareb o Ymatebion a Dderbyniwyd

Er mwyn dangos y gymhareb o ymatebion a dderbyniwyd gan fudd-ddeiliad, o gymharu â'r nifer o ddogfennau a ddosbarthwyd, dengys y tabl isod wybodaeth am y prif grwpiau o ymatebwyr. Yn ogystal â'u hanfon yn uniongyrchol i fudd-ddeiliad, hysbysebwyd y cynllun yn eang ac roedd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Math o Ymatebydd	**Nifer o Ymatebion**	**% o'r holl ymatebion**
Aelod o'r Gwasanaeth Tân	8	12%
Cynghorau Tref a Chymuned	32	48%
Aelod o'r Cyhoedd	15	23%
Aelod Cynulliad	2	3%
Aelod Seneddol	1	2%
Awdurdod Unedol	2	3%
Corff Cynrychiolaidd	1	2%
Arall (Partneriaid Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Iechyd, Parciau Cenedlaethol)	5	7%

6.0 Sut yr aethpwyd ati i ddadansoddi'r ymatebion

Darparwyd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad trwy gwblhau'r holiadur a ddarparwyd gyda phob cynllun. Roedd yr holiadur yn cynnwys adran wag ar gyfer pob cynnig, fel bod yr ymatebwyr yn medru rhoi eu sylwadau.

Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr gwblhau'r holiadur, ond fe wnaethant anfon e-bost, llythyr neu adroddiad yn cynnwys eu hymateb. Hefyd, cofnodwyd sylwadau mewn cyfarfod o'r Fforwm 50+. Defnyddiodd yr Awdurdod system arolwg ar lein i gadw'r ymatebion electronig yn annibynnol.

Cafodd yr holl ymatebion eu hystyried gan Weithgor Cynllunio i Leihau Risg yr Aelodau. Fe wnaeth y grŵp hwn werthuso'r sylwadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ar gynnwys y cynllun terfynol ac ym mha fodd y dylai'r gwaith ddatblygu.

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cynigion yma, ac adroddwyd y pwyntiau a gafodd eu crybwyll trwy grwpio prif themâu'r ymatebion, i adlewyrchu'r maes penodol a oedd yn peri pryder gyda'u proffil.

Oherwydd bod rhai o'r cynigion yn ymwneud â dod o hyd i aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed, cyflawni ein cynlluniau diogelwch a chynnwys ein cymunedau, cynigodd llawer o'r ymatebwyr yr un argymhellion ar draws nifer o gynigion.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi'r ymatebion yn gywir ac yn deg, a chryfder y teimlad o ran pob un o'r meysydd o bryder, er mwyn adlewyrchu'n llawn yr ymateb i'r broses o ymgynghori. Ychwanegwyd sylwadau gan yr Awdurdod ble bod angen, er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol am y pwyntiau a gafodd eu crybwyll. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Blynyddol terfynol yn ofalus, o ganlyniad i'r ystyriaeth a roddwyd gan yr Awdurdod i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

7.0 Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cynllun Strategol

Dosbarthwyd Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010-2011 gyda Chynllun Strategol yr Awdurdod ar gyfer 2010-2015. Nifer fach o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau am y Cynllun Strategol, gyda'r prif ffocws ar y chwe ardal i'w gwella yn y Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft.

Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010/2011

Yn ogystal â darparu ymatebion penodol i'r meysydd i'w gwella, manteisiodd rhai o'r ymatebwyr ar y cyfle i ganmol yr Awdurdod am y lefel o Wasanaeth a ddarperir ac fe wnaethant gynnig eu cefnogaeth gyffredinol i'r gweithredoedd a gynigwyd yn y Cynllun.

Mae'r ymatebion i'r chwe ardal i'w gwella wedi eu crynhoi isod.

7.1 Gwella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed

Caiff gwaith diogelwch yn y gymuned yr Awdurdod ei dargedu at aelodau ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed, ond gwyddwn nad ydym yn cyrraedd pawb. Mae sefydliadau eraill yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed a phobl sy'n cael eu heithrio, ac mae'n bosib y medrant wella ein mynediad atynt. Rydym ni eisiau cryfhau ein cysylltiadau gyda phartneriaid, a rhoi iddynt hyfforddiant ac arbenigedd pellach i ganfod ac adrodd am risgiau tân. Fe wnaethom ofyn am farnau am sut fedrwn ni wella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Crynodeb o Sylwadau	Math o Ymatebydd
Cryfhau ein cysylltiadau gyda phartneriaid Dylai'r Awdurdod gryfhau ei gysylltiadau gyda sefydliadau sy'n ymwneud yn rheolaidd â phobl sy'n agored i niwed, ac sy'n medru ein helpu i ddod o hyd i'r bobl hynny sydd wrth risg. *Sylw'r Awdurdod* – Mae gyda ni gysylltiadau agos gyda'n partneriaid yn barod, ond byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i ehangu'r rhwydwaith.	Y Cyhoedd, Staff, Cynghorau Tref a Chymuned, Aelod Seneddol, Ymddiriedolaeth GIG
Canfod y lleoliadau y mae pobl sy'n agored i niwed yn cwrdd, ac yn ymweld â nhw Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau ar y mannau gorau i gwrdd â gwahanol fathau o bobl sy'n agored i niwed, a'r math o gyswllt mae gwahanol grwpiau'n ymateb orau iddo, megis digwyddiadau mewn canolfannau dydd *Sylw'r Awdurdod* – Mae rhai o'r lleoliadau a awgrymwyd yn cael eu targedu eisoes, ond byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i wella eto.	Y Cyhoedd, Cynghorau Tref a Chymuned
Defnyddio gwybodaeth leol y staff dyletswydd wrth gefn *Sylw'r Awdurdod* – Mae diffoddwyr tân lleol eisoes yn chwarae rhan wrth ganfod a chynnwys eu cymunedau lleol, a chydnabyddir hyn fel rhan bwysig o'u rôl.	Cynghorau Tref a Chymuned, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn
Hysbysebu'r ffaith ein bod yn ceisio dod o hyd i bobl sy'n agored i niwed er mwyn eu gwneud nhw'n fwy diogel. Derbyniwyd nifer o awgrymiadau am sut i godi proffil y gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein cymunedau, yn cynnwys defnyddio ysgolion ac ysbytai i greu ymwybyddiaeth. *Sylw'r Awdurdod* – Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei ddefnyddio i wella'r modd yr ydym yn hysbysebu ein Gwasanaethau.	Cynghorau Tref a Chymuned, Staff, Aelod Cynulliad, Ymddiriedolaeth GIG

Diogelu Data Mynegwyd pryder am rannu gwybodaeth bersonol gyda'n sefydliadau partner. *Sylw'r Awdurdod* – Ble bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rannu, bydd yn cael ei ddarparu'n unol â Deddf Diogelu Data 1998 yn unig.	Cynghorau Tref a Chymuned
Cyswllt Uniongyrchol gyda phobl sy'n agored i niwed Mynegwyd pryder am 'alw'n diwahoddiad' gyda thrigolion sy'n agored i niwed, oherwydd y gallai hyn godi ofn arnynt. *Sylw'r Awdurdod* – Nid yw'r Awdurdod yn 'galw'n ddiwahoddiad'. Fel arfer, cysylltir yn gyntaf trwy alwad ffôn neu atgyfeiriad arall, cyn ymweld yn bersonol.	Cynghorau Tref a Chymuned

Dadansoddi'r Ymatebion

Roedd yr ymatebwyr yn dra chefnogol o'n hymdrechion i wella'r maes gwaith hwn, ac roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â chanfod pobl sy'n agored i niwed yn cadarnhau bod strategaeth y Gwasanaeth yn y maes hwn yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r hyn mae ein budd-ddeiliad yn ei ddisgwyl oddi wrthym. Fodd bynnag, fe wnaethant ddarparu amryw o awgrymiadau gwerthfawr ac arloesol ar sut y medrwn ehangu a gwella yn y maes hwn.

7.2 – Rhannu ein cyfleusterau gyda'n cymunedau

Mae gennym adeiladau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac rydym ni eisoes yn rhannu rhai o'r cyfleusterau yma gyda'r gymuned leol a gwasanaethau brys eraill. Mae hyn yn ein galluogi i weithio ar y cyd ac i fwyhau'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r adeiladau yma'n adnodd gwerthfawr yn y gymuned ac maent yn gymorth i hyrwyddo ein gwasanaethau, ein rhaglenni ymwybyddiaeth o ddiogelwch a gwaith pobl eraill. Rydym ni eisiau i'n gorsafoedd tân i fod yn agored ac yn hygyrch i'r cyhoedd, ond mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ddatblygu ein safleoedd fel eu bod nhw'n addas i'w rhannu, ac felly fe wnaethom ofyn am farnau ar ehangu a datblygu ymhellach y defnydd rhanedig a wneir o'n cyfleusterau gyda chymunedau.

Crynodeb o Sylwadau	Math o Ymatebydd
Cefnogol iawn o rannu ein cyfleusterau Cafwyd llawer iawn o sylwadau cadarnhaol a chefnogaeth i bolisi'r Awdurdod o agor gorsafoedd tân i fyny er mwyn i'r gymuned leol eu defnyddio, oherwydd teimlwyd ei fod: • Yn gwella ymwybyddiaeth o negeseuon diogelwch • Yn gwella integreiddio o fewn y gymuned • Yn agor cyfleuster gwerthfawr yn y gymuned • Yn caniatáu mwy o waith gyda gwasanaethau brys eraill	Ymddiriedolaeth GIG, Cynghorau Tref a Chymuned, Y Cyhoedd, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Staff, Aelodau Cynulliad, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Grŵp 50+ Abertawe
Hysbysebu argaeledd y cyfleusterau yma Nid oedd llawer o'r ymatebwyr yn ymwybodol fod gan yr Awdurdod gyfleusterau a rennir, ac roeddent yn teimlo y dylid hysbysebu hyn yn eang *Sylw'r Awdurdod* – Byddwn yn darparu gwybodaeth am gyfleusterau a rennir ar ein gwefan ac yn y cymunedau lleol.	Cynghorau Tref a Chymuned, Y Cyhoedd
Ni ddylai rhannu cyfleusterau amharu ar weithrediad yr orsaf Ni ddylai unrhyw gyfleusterau a rennir amharu ar weithrediad llyfn y Gwasanaeth ac effeithlonrwydd gweithredol y gorsafoedd tân *Sylw'r Awdurdod* - Bydd effeithlonrwydd gweithredol yn dal i fod yn ystyriaeth bennaf i ni, a bydd staff yn elwa o waith rhyngasiantaeth.	Cyngor Tref, Aelod Cynulliad
Iechyd a Diogelwch Pobl ac Eiddo Dylai unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, yswiriant a diogelwch sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i gael mynediad i safleoedd gael eu hystyried yn llawn. *Sylw'r Awdurdod* - Bydd Iechyd a Diogelwch Pobl ac Eiddo'n parhau i fod yn ystyriaeth bennaf i ni.	Cynghorau Tref a Chymuned, Staff

Dadansoddi'r Ymatebion

Roedd yna gefnogaeth lethol i bolisi'r Awdurdod o rannu ein cyfleusterau gyda chymunedau a gwasanaethau brys eraill. Roedd hyn yn cadarnhau fod yr Awdurdod yn gweithio yn y meysydd y mae disgwyl i ni wneud, a bydd yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach ein cysylltiadau gyda gwasanaethau eraill ac i ehangu ein hamrywiaeth o gyfleusterau cymunedol.

7.3 – Cynnwys ein Cymunedau

Rydym ni eisoes yn cynnwys ein cymunedau i sicrhau fod ein gwasanaethau'n atebol, a'u bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau lleol. Rydym yn weithgar wrth hyrwyddo diogelwch yn y gymuned a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bob agwedd o'n gwaith. Rydym ni eisiau atgyfnerthu ein cysylltiadau gyda chymunedau, gan roi ein dinasyddion ar ganol y llwyfan, er mwyn cynyddu'r llais sydd ganddynt wrth ffurfio'r gwasanaethau a ddarparwn.

Crynodeb o Sylwadau	Math o Ymatebydd
Lefel dda o gynnwys y gymuned Roedd yr ymatebwyr yn teimlo fod lefel cynnwys yr Awdurdod a phroffil yr Awdurdod yn y gymuned eisoes yn dda, a bod criwiau lleol eisoes yn adnabyddus yn y gymuned, oherwydd eu gweithgareddau diogelwch yn y gymuned. *Sylw'r Awdurdod* – Mae hyn yn adlewyrchu beth mae'r ddogfen fframwaith yn ei ddisgwyl oddi wrth y Gwasanaeth, ac fel yr amlinellwyd mewn agendâu rhanedig eraill megis 'Creu'r Cysylltiadau'.	Cynghorau Cymuned, Y Cyhoedd
Cynnwys yn Uniongyrchol Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn argymell cyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd, megis cynlluniau Diffoddwyr Tân Ifanc, presenoldeb mewn ysgolion, digwyddiadau cymunedol a chyfarfodydd cynghorau tref a chymuned. Roeddent yn canmol y lefel bresennol o gynnwys ac roeddent yn teimlo y gellir adeiladu ar hyn. Darparwyd awgrymiadau ar amryw o sefydliadau y dylem ni weithio gyda nhw i wella'r modd yr ydym yn cynnwys y gymuned. *Sylw'r Awdurdod* –Bydd hyn yn parhau i fod wrth wraidd ein gweithgareddau, a byddwn yn adeiladu ar hyn trwy waith pellach yn y gymuned.	Staff, Cynghorau Tref a Chymuned, Y Cyhoedd, Aelod Cynulliad, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
Gwaith Partneriaeth Parhau gyda'r gwaith gwerthfawr gyda phartneriaid, megis gwasanaethau brys eraill, y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, mudiadau gwirfoddol, Cymunedau'n Gyntaf, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu a Chymunedau Ynghyd (PACT) *Sylw'r Awdurdod* – Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ac yn ehangu ein gwaith partneriaeth, fel yr argymhellwyd.	Staff, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Grŵp 50+
Canfod y lleoliadau y mae pobl sy'n agored i niwed yn cwrdd, ac yn ymweld â nhw Darparwyd awgrymiadau ar y lleoliadau gorau i gwrdd ag amrywiaeth eang o bobl, yn ogystal â'r math o gyswllt maent yn debygol o ymateb iddo. *Sylw'r Awdurdod* – Mae rhai o'r lleoliadau a awgrymwyd yn cael eu targedu eisoes, ond byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i wella eto.	Cynghorau Cymuned, Grŵp 50+
Hysbysebu'r ffaith ein bod yn ceisio gwella'r modd yr ydym yn cynnwys y gymuned Codi proffil y Gwasanaeth trwy ddefnyddio cylchlythyrau lleol, hysbysfyrddau ayb. Parhau i ddarparu modd o ymgynghori â chymunedau, fel bod ganddynt broses i leisio eu barnau.	Cynghorau Cymuned, Y Cyhoedd

Dadansoddi'r Ymatebion

Roedd yna dipyn o gefnogaeth i ddymuniad y Gwasanaeth i wella'r modd y mae'n cynnwys y gymuned, a gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau ar sut y medrir cyflawni hyn. Mae llawer o'r gweithgareddau a awgrymwyd eisoes yn rhan o'n gwaith craidd, ond roedd hyn yn arddangos parodrwydd ein cymunedau i ymwneud â'r Gwasanaeth.

7.4 – Gwella Diogelwch ar y Ffordd

Rydym ni eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r peryglon ar ein ffyrdd ac i wella diogelwch. Yn ogystal, rydym wedi darparu gwell offer ar holl beiriannau'r rheng flaen. Fe wnaethom ofyn am atborth oddi wrth ein budd-ddeiliad ar beth fwy y medrwn ni ei wneud.

Crynodeb o Sylwadau	Math o Ymatebydd
Ein canmol am y gwaith a wnaethpwyd eisoes Derbyniwyd canmoliaeth am y lefel o wasanaeth a'r gwelliannau a wnaethpwyd eisoes ym maes diogelwch ar y ffordd.	Cynghorau Tref a Chymuned
Parhau gyda'r strategaethau addysg presennol Ystyriwyd bod gwaith addysg gydag ysgolion, colegau ac asiantaethau eraill yn hanfodol bwysig wrth hysbysebu materion yn ymwneud â diogelwch ar y ffordd, ac anogwyd yr Awdurdod i barhau gyda'r gwaith hwn. *Sylw'r Awdurdod* – Mae addysgu grwpiau risg yn rhan allweddol o'n gwaith, a byddwn yn parhau i drosglwyddo Strategaeth RTC Cymru Gyfan a'n gwaith gyda phartneriaid allweddol.	Staff, Cynghorau Tref a Chymuned, Y Cyhoedd
Gwaith Partneriaeth Argymhellwyd gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau brys eraill a chydag amryw o asiantaethau. Darparwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau ar gyflawni gwasanaethau, cyfnewid gwybodaeth am beryglon diogelwch ar y ffordd, a dylanwadu ar yrru a deddfwriaeth diogelwch ar y ffordd. *Sylw'r Awdurdod* – Gwyddwn y medrwn gyflawni mwy trwy weithio ar y cyd, a byddwn yn rhannu'r wybodaeth a ddarparwyd gyda'n partneriaid.	Ymddiriedolaeth GIG, Cyngor Tref a Chymuned, Y Cyhoedd, Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Grŵp 50+, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Dadansoddi'r Ymatebion

Roedd yna dipyn o gefnogaeth i'r gwaith a wneir gan yr Awdurdod eisoes, i wella'r ffordd yr ydym yn cyfarparu ein staff i ymdrin â gwrthdrawiadau ar y ffordd a chadarnhawyd fod ein gwaith gyda phartneriaid yn cyd-fynd â'r hyn a ddisgwylir oddi wrthym. Bydd yr amryw o gynlluniau gweithio ar y cyd a chreu ymwybyddiaeth yn cael eu cyflwyno i'r fforymau y mae'r Gwasanaeth yn rhan ohonynt, yn lleol ac yn genedlaethol.

7.5 – Cyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC)

Ar hyn o bryd, mae archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref yn cael eu cynnal gan ddiffoddwyr tân, asiantaethau partner a staff diogelwch yn y gymuned ymroddedig. Credwn fod yna gyfleoedd i wella yn y maes hwn ac fe wnaethom ofyn i'n budd-ddeiliad am eu sylwadau.

Crynodeb o Sylwadau	Math o Ymatebydd
Ein canmol am y gwaith a wnaethpwyd eisoes Roedd hwn yn faes gwaith a gafodd ymateb cadarnhaol iawn, sy'n dangos y gwerth mae ein budd-ddeiliad yn ei roi ar Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref.	Cynghorau Tref a Chymuned, Y Cyhoedd, Grŵp 50+ Abertawe
Dylid buddsoddi adnoddau yn y maes hwn Cafwyd sylwadau bod angen buddsoddi mwy o adnoddau yn y maes hollbwysig hwn, o ran adnoddau ymroddedig a nawdd ychwanegol ar gyfer staff dyletswydd wrth gefn. *Sylw'r Awdurdod* - Byddwn yn parhau i ymchwilio ymhellach i gyfleoedd ar gyfer nawdd ac rydym yn ddiolchgar i'r Cynulliad am ei gefnogaeth sylweddol yn y maes hwn.	Staff, Ymddiriedolaeth GIG, Cyngor Tref a Chymuned, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn
Gweithio gyda phartneriaid Defnyddio amrywiaeth eang o bartneriaid i ddarparu gwell gwybodaeth a gweithio gydag asiantaethau eraill, megis gwerthwyr tai ac ysbytai, i hysbysebu bod y gwasanaeth hwn ar gael. Dylid gwneud gwell defnydd o'n partneriaid, sy'n ymweld â phobl sy'n agored i niwed yn eu cartrefi, a gellid eu hyfforddi i ymgymryd ag Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref ar ein rhan. *Sylw'r Awdurdod* – Mae trefniadau eisoes mewn lle gyda rhai asiantaethau, ond mae'n bosib bod yna gyfleoedd i ymestyn y trefniadau yma ymhellach.	Y Cyhoedd, Cyngor Tref a Chymuned, Aelod Cynulliad Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Aelod Seneddol, Grŵp 50+ Abertawe
Mae angen awtomeiddio'r broses gofnodi Mae'r broses HFSC yn galw am gofnodi gwybodaeth ac mae'n medru bod yn broses sy'n cymryd llawer o amser, ac mae angen ei hawtomeiddio. *Sylw'r Awdurdod* – Mae system electronig i symleiddio'r broses HFSC yn cael ei chyflwyno, a bydd yn gwella'r modd yr ydym yn targedu, yn cyflawni ac yn cofnodi'r gwaith hwn.	Staff
Cyswllt uniongyrchol â phobl sy'n agored i niwed Mynegwyd pryder am 'alw'n diwahoddiad' gyda thrigolion sy'n agored i niwed, oherwydd y gallai hyn godi ofn arnynt. *Sylw'r Awdurdod* – Fel arfer, cysylltir â thrigolion yn gyntaf, trwy alwad ffôn neu atgyfeiriad arall, a thrwy gyfrwng taflen yn targedu ardaloedd ble mae tanau wedi amlygu'n ddiweddar.	Y Cyhoedd

Dadansoddi'r Ymatebion

Pwysleisiwyd mantais darparu Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref, yn ogystal â'r angen i ni barhau i fuddsoddi yn y maes hwn. Gwnaethpwyd sylwadau gwerthfawr am sut oedd ein budd-ddeiliad yn teimlo y medrwn ni wella'r modd yr ydym yn cyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref. Yn ogystal, awgrymwyd ein bod yn defnyddio ein partneriaid i hysbysebu, canfod ac ymgymryd â'r archwiliadau ar ein rhan.

Roedd y sylwadau'n cadarnhau bod gan strategaeth yr Awdurdod yn y maes hwn gefnogaeth ein budd-ddeiliad ac y dylem ni barhau i fuddsoddi a gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gyflawni mwy eto o ran diogelwch yn y cartref.

7.6 – Lleihau'r Nifer o Danau Glaswelltir Bwriadol

Mae tanau glaswelltir a choedwig bwriadol yn gwastraffu ein hadnoddau ac maent yn peryglu diogelwch ein diffoddwyr tân, felly fe wnaethom ofyn i'n budd-ddeiliad am eu barnau am beth fedrwn ni wneud yn fwy i leihau'r tanau yma.

Crynodeb o Sylwadau	Math o Ymatebydd
Parhau gyda'r strategaethau addysg presennol Roedd yna ganmoliaeth i waith yr Awdurdod wrth addysgu plant ysgol mewn ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid ayb., ac ystyriwyd ei fod yn bwysig iawn. *Sylw'r Awdurdod* – Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaethau addysg. Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cynlluniau gwersi a dargedir at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 (blynyddoedd 7 ac 8), i greu ymwybyddiaeth a gwella eu dealltwriaeth o beryglon tanau glaswellt.	Y Cyhoedd, Awdurdod Unedol, Cyngor Tref a Chymuned, Ymddiriedolaeth GIG, Staff, Partneriaethau Diogelwch Cymuned
Gweithio gyda Phartneriaid Argymhellwyd gweithio gyda phartneriaid, a chynigwyd amrywiaeth eang o asiantaethau fel partneriaid. Awgrymwyd gweithgareddau i leihau tanau glaswelltir bwriadol ac i ymdrin â'u canlyniadau. *Sylw'r Awdurdod* – Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cysylltiadau agos gydag addysgwyr Yr Heddlu, ac mae ganddo Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol Gwledig arbenigol (RAFT) sy'n gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Heddlu, i leihau'r effaith ar yr amgylchedd ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â llosgi bwriadol.	Ymddiriedolaeth GIG, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Aelod Cynulliad, Staff, Cynghorau Tref a Chymuned, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Parc Cenedlaethol Sir Benfro, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Hysbysebu peryglon a difrod tanau glaswellt a newid agwedd cymdeithas at danau glaswelltir Gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r peryglon i'r gymuned ac i ddiffoddwyr tân, a'r niwed i'r amgylchedd. Cymell y gymdeithas i drin tanau glaswelltir bwriadol yn fwy difrifol a newid agwedd cymdeithas at gynnau tanau. *Sylw'r Awdurdod* - Mae rhaglen addysg helaeth i ysgolion yn hyrwyddo'r peryglon ac effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol tân. Gyda chymorth y Cynulliad, mae'r Gwasanaeth wedi paratoi DVD addysgol benodol, a wylir mewn ysgolion fel rhan o'r cwricwlwm.	Cyngor Cymuned, Y Cyhoedd, Grŵp 50 +
Dylai cosbau am losgi bwriadol weithredu fel arf ataliol Dylid trin tanau glaswellt yn fwy difrifol, a dylai'r cosbau a orfodir i gael eu cynllunio i atal llosgwyr bwriadol. *Sylw'r Awdurdod* - Mae'r Gwasanaeth hwn yn trin llosgi glaswelltir yn fwriadol yn ddifrifol iawn, ac rydym yn gweithio'n agos gyda lluoedd yr Heddlu yng Nghymru, i sicrhau fod unrhyw gosbau am euogfarnau yn gymesur, yn briodol ac yn effeithiol. Bydd y sylwadau yma'n cael eu rhannu gyda'n partneriaid.	Cynghorau Tref a Chymuned, Y Cyhoedd

Dadansoddi'r Ymatebion

Cydnabuwyd y gwaith a wnaethpwyd gan yr Awdurdod a'i bartneriaid eisoes wrth leihau'r nifer o danau glaswelltir, a chadarnhawyd mai gweithio gydag asiantaethau eraill yw'r ffordd ymlaen, oherwydd y cydnabuwyd fod hon yn broblem sy'n effeithio ar gymunedau.

8 Casgliadau

Roedd Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010-2011 yn gofyn am farnau ein budd-ddeiliad ar sut yr oeddent yn dymuno i ni wella yn y meysydd yma. Roedd gan yr ymgynghoriad ffocws clir ar sut y medra wella'r modd y mae'n cynnwys cymunedau, a sut y medra wella'r modd y mae'n cyflawni gwasanaethau diogelwch yn y gymuned, megis HFSC, diogelwch ar y ffordd a thanau glaswelltir bwriadol. Y meysydd ffocws oedd:-

- Gwella'r ffordd yr ydym yn cyrraedd aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed
- Rhannu ein cyfleusterau gyda'n cymunedau
- Cynnwys ein cymunedau
- Gwella diogelwch ar y ffordd
- Cyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref
- Lleihau'r nifer o danau glaswelltir bwriadol

Mae'r ymatebion cadarnhaol a chynhwysfawr a ddarparwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn arddangos bod ein cymunedau'n ystyried bod y meysydd yma o'n gwaith o bwysigrwydd mawr, a'u bod yn croesawu prosesau i roi eu barnau i ni. Dangosodd y dadansoddiad o sylwadau fod yna themâu cyffredin ym mwyafrif yr ymatebion ac mae'r rhain wedi eu crynhoi yma.

- **Cefnogaeth i'n gwaith presennol**

Cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r gwaith a wnaethpwyd eisoes gan yr Awdurdod, ac mae llawer o'r argymhellion a wnaed ar gyfer gwella eisoes wedi eu hymgorffori yn y Gwasanaeth. Calonogwyd yr Awdurdod gan y cadarnhad bod cymunedau'n cefnogi ei strategaethau, ei bolisïau a'i gynlluniau, ac y dylai barhau i ddatblygu ei waith ym mhob un o'r meysydd yma.

Roedd hyn yn arddangos y gwerth yr oedd ein budd-ddeiliad yn ei roi ar dargedu a chyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Gymuned, cynnwys ein cymunedau, rhannu ein cyfleusterau, gwella diogelwch ar y ffordd a lleihau'r nifer o danau glaswelltir. Cydnabuwyd bod ein gwaith yn y meysydd yma o bwysigrwydd mawr wrth wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Argymhellir y dylai'r strategaethau presennol yn y meysydd ffocws gael eu datblygu ac y dylai'r argymhellion ar gyfer gwella gael eu harchwilio gan y Cyfarwyddwyr perthynol a'u timau.

- **Gweithio ar y cyd gyda phartneriaid**

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y gwaith a wnaethpwyd eisoes mewn partneriaeth â gwasanaethau ac asiantaeth eraill, ac roeddent yn gefnogol iawn o'r strategaeth hon o weithio ar y cyd. Gwnaethpwyd argymhellion i atgyfnerthu ac ehangu'r partneriaethau presennol ac i ffurfio cydberthynasau newydd, yn enwedig wrth dargedu a chyflawni Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref. Awgrymwyd amrywiaeth eang iawn o bartneriaid, yn cynnwys Cymunedau'n Gyntaf, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau gwirfoddol, ar draws y chwe maes ffocws.

Argymhellir y dylai'r Cyfarwyddwyr perthynol ymchwilio i ddatblygu gwaith partneriaeth, fel yr argymhellwyd gan ein budd-ddeiliad.

- **Creu ymwybyddiaeth o'n gwaith a'n gwasanaethau**

Fe wnaeth y budd-ddeiliad gadarnhau'r angen i sicrhau fod yr Awdurdod yn parhau i gadw ein cymunedau'n ymwybodol o'r gwaith a wnawn a'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarparwn. Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau er mwyn codi ein proffil, trwy fanteisio ar y rhwydweithiau a ddarperir gan gylchlythyrau lleol a thrwy ymwneud yn fwy â mudiadau lleol.

Argymhellir y dylai'r Cyfarwyddwyr perthynol archwilio'r awgrymiadau a wnaed i godi ein proffil, er mwyn atgyfnerthu'r modd yr ydym yn cynnwys yr amrywiol gymunedau a wasanaethwn.

9 Cyflawni Gwelliannau

Mae'r Awdurdod wedi cyfarwyddo y dylai'r ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer pob maes gael eu hystyried gan y Cyfarwyddwyr perthynol, sydd â chyfrifoldeb am y meysydd dan sylw. Mae gan y Cyfarwyddwr Risg gyfrifoldeb am y mwyafrif o feysydd ffocws, a bydd yn gweithio gyda'i dîm, er mwyn ystyried yn fanwl yr holl awgrymiadau a wnaed, i wella a mwyhau'r trefniadau gwaith presennol.

Bydd gwybodaeth a ddarparwyd ac awgrymiadau a wnaed yn ystod y broses o ymgynghori, yn cael eu rhannu gyda'n partneriaid. Byddwn yn parhau i weithio gydag asiantaethau, megis Cymunedau'n Gyntaf, sy'n canolbwyntio ar wella amodau byw a rhagolygon cymunedau difreintiedig, a byddwn yn datblygu partneriaethau newydd, fel sy'n briodol.

Bydd cynnydd ym mhob maes o welliant yn cael ei adrodd, yn gyfnodol, i'r Awdurdod Tân a'i bwyllgorau perthynol. Bydd manylion am y datblygiadau'n cael eu hadrodd mewn Cynlluniau Gweithredu Blynyddol dilynol, er mwyn i'n budd-ddeiliad i weld sut mae eu cyfraniad gwerthfawr wedi ein galluogi i wella'r modd yr ydym yn cyflawni ein gwasanaeth.